

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â Cledwyn a Gwilym a gweddill y teulu ym marwolaeth eu mam, Mrs Dinah Roberts (Llanfair), ddechrau'r wythnos. Diolchwn i Dduw amdani ac am ei hanwyldeb a'i ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Mair Rogers (Saron) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer. Hyderwn y cânt oll adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt y dyddiau hyn.
- Mae yna nifer o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Mae Harold Pierce (Llanefydd) yn dal yn Ysbyty Broadgreen ac heb fod yn dda ers iddo gael y llawdriniaeth yr wythnos ddiwethaf. Cofiwn yn arbennig amdano ef a'r teulu yn ein gweddïau y dyddiau hyn. Yn yr un modd, mae Trefor Jones (Cefn Meiriadog) yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd, ac wedi dechrau ar driniaeth wahanol yr wythnos hon. Cofiwn yn dyner amdano ef a'r teulu hefyd a gweddiwn y byddant oll yn profi Duw yn agos ac yn nerth a chysur iddynt yn eu hangen. Yn yr ysbyty hefyd y mae dau o aelodau Capel Henllan - Heulwen Roberts yn Ysbyty Glan Clwyd, a Meirion Evans yn Ysbyty Abergele yn dilyn llawdriniaeth ar ei benglin. Ac yn parhau yn yr Inffirmari y mae Victor Vaughan (Saron) a Robert Roberts (Llanefydd). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau.
- Ni fu Aneurin Evans (Saron) mewn cystal hwyliau yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn ychwaith. Anfonwn ein cofion anwylaf ato yntau a gweddiwn y bydd ef a'r teulu yn profi Duw yn agos ac yn ddigon y dyddiau hyn.
- Erbyn hyn, mae Menna Owen (Cefn Meiriadog) wedi cael symud i gartref Yr Hen Ddeondy yn Llanellwy. Bu yn yr ysbyty ers mis Hydref a diolchwn am y gofal arbennig a gafodd tra yn Ysbyty Glan Clwyd ac yna'n ddiweddarach yn yr Inffirmari. Diolchwn hefyd i Dduw am y modd y mae wedi cynnal Menna a'i phriod, Meurig, ar hyd yr amser. Gweddiwn y byddant yn parhau i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd ac y bydd Menna yn setlo yn fuan yn y cartref ac yn dal ati i wella bob dydd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dafydd Cernyw ac Owain John, Pwll Mawr (Llansannan) gafodd eu dewis allan o gannoedd o blant i fynd gydag 'Only Kids Aloud' i Rwsia. Yr un yw'n llongyfarchion hefyd i bawb sydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir gyda'r Urdd. Dymuniadau gorau i bawb o'r ardal fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Eryri!

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Mawrth 2012

Ceisiadau gweddi i Hafwen (813445)
neu Celfyn (550274) cyn nos Fawrth,
os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Llawenydd yw deall fod Sarah Morris a Zoe Jones (Coleg y Bala) wedi cyrraedd yn ôl yn ddiogel o Mizoram, India. Edrychwn ymlaen i gael yr hanes ganddynt cyn hir yn Oedfa'r Fro! Buont yn gweld *Hmangaihna In*, y cartref i blant amddifad y buom yn casglu arian tuag ato'r llynedd ac yn ôl adroddiad Sarah a Zoe, mae'r arian yn cael ei wario'n effeithiol i wella'r cyfleusterau i'r plant. Diolch i Dduw am hynny ac am y gofal a ddangosir i bob un o'r plant yn enw Crist. Soniais nos Sul diwethaf am weithredu o blaid y 'lleiaf' fel petaem yn gwneud hynny i Grist ei hun (Mathew 25) a dyma a wneir yn y cartref yma ym mhentref bychan Durtlang sydd wedi dod mor agos i ni trwy weddi a chysylltiadau personol, er ei fod mor anghysbell mewn gwlad sydd mor bell i ffwrdd. Mae'n freuddwyd gennyf y byddwn yn dod yn agosach fyth rhyw ddydd trwy ddolennu yr ofalaeth gydag eglwys leol Presbyteriaidd Durtlang. Byddai'n dda cael partneru hefo'r gynulleidfa yno mewn gweddi a dod i adnabod ein gilydd mewn cyfeillgarwch. Mater i'w godi yn y cyfarfod nesaf o flaenoriaid y Fro!

Llawenydd hefyd oedd darllen ar wefan CWM (Council for World Mission) am yr hyn a ddigwyddodd ym Mizoram ym mis Ionawr eleni sef cynnal cyfarfod comisiynu a danfon 107 a genhadon ar un waith allan o Mizoram i weithio ar draws India a rhannau eraill o'r byd. Bellach, yn ôl CWM mae gan Mizoram 1,912 o genhadon – yn weinidogion ac yn weithwyr – ar draws y byd. Meddylwch am hynny am eiliad! Mae poblogaeth y wlad (Mizoram) tua 800,000, sef tua'r un nifer ag sydd o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Meddylwch am boblogaeth y Cymry Cymraeg yn anfon cymaint â hynny o genhadon allan o Gymru i'r byd heddiw! Y mae pob peth yn bosibl gyda Duw.

Gweddiwn felly dros y cenhadon newydd yma a thros yr eglwys ym Mizoram a'r rhai sydd yn dal i aros am gyfle i wasanaethu'r Arglwydd. Gweddiwn hefyd dros y ddau deulu o Mizoram sydd eisoes yn gweinidogaethu yma yng Nghymru sef y Parch. Ddr. H. Sangkhuma (Maesteg) a'r Parch. John Colney, (Aberdar); hefyd y Parch. Charles Chua o'r dwyrain pell sydd yn Abertawe. Gweddiwn dros Gymru, am bresenoldeb yr Ysbryd Glân mewn ffordd arbennig yn ail-eni llawer ac yn dyfnhau ein ffydd.

Croeso i oedfaon y dydd - gadewch i ni gyd addoli mewn rhyfeddod a diolchgarwch!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher
- **Grwpiau Tai Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau
- **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
 - **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00.
 - Cyfarfod i aelodau'r **Grŵp Gwasanaethu** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog a Llanfair am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

*** Cyfraniadau tuag at gasgliad y Sasiwn i Iorwen Roberts mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. ***

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00, ac ar derfyn yr oedfa, bydd Rhodri Glyn a Rhys Dafis yn cael eu derbyn i wasanaethu fel diaconiaid yn Eglwys Hiraethog. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â'r oedfa, ond ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Ar derfyn yr oedfa, bydd aelodau Capel Saron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd y Parch. Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf
- Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

I ddod

- **New Word Alive** ym Mhrestatyn Mawrth 31ain – Ebrill 5ed. Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r addoliad fydd am 6.30 ar nos Fercher, Ebrill 4ydd. Os hoffech gyfarfod eraill o'r Ofalaeth yno, dewch i'r fynedfa erbyn 6.00.
- **Myfyrdodau'r Pasg** – Fe'ch gwahoddir i astudiaethau fydd yn ein paratoi ar gyfer y Pasg ar nos Fawrth, Ebrill 3ydd a nos Iau, Ebrill 5ed am 7.30. Bydd yr Astudiaethau yn cael eu cynnal yng Nghefn Berain ac yng Nghefn Meiriadog ar y nos Fawrth, ac ym Mheniel a Llansannan ar y nos Iau. Croeso i chi ymuno ble bynnag sy'n gyfleus i chi.
- **Oedfa'r Fro Bore'r Groglith** yn Nantglyn am 10.30.
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg .

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau